Statws *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 4

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i gael eu cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth

Addasrwydd y gwasanaeth

14.—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer unigolyn oni bai bod y darparwr gwasanaeth wedi penderfynu bod y gwasanaeth yn addas i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn ac i gefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar dderbyniadau a chychwyn y gwasanaeth.

(3) Rhaid i'r penderfyniad o dan baragraff (1) ystyried—

(a) cynllun gofal a chymorth yr unigolyn,

(b) os nad oes cynllun gofal a chymorth, asesiad y darparwr gwasanaeth o dan baragraff (4),

(c) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill,

(d) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,

(e) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn,

(f) unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt,

(g) unrhyw addasiadau rhesymol y gallai'r darparwr gwasanaeth eu gwneud i alluogi i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn gael eu diwallu, a

(h) polisi a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth ar dderbyniadau a chychwyn y gwasanaeth.

(4) Mewn achos pan na fo gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) asesu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, a

(b) nodi ei ganlyniadau personol.

(5) Rhaid i'r asesiad sy'n ofynnol gan baragraff (4) gael ei gynnal gan berson sydd—

(a) â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad, a

(b) wedi cael hyfforddiant i gynnal asesiadau.

(6) Wrth wneud y penderfyniad ym mharagraff (1), rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn, yr awdurdod lleoli (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—

(a) os yw'r unigolyn yn oedolyn neu'n blentyn 16 oed neu drosodd ac nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu

(b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 14 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
- reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)